

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN

COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER
10 Mai 2017 AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, I Rowlands, G Parry, R G Parry, E Huws, S Parry	
YMDDIHEURIADAU: Cyng K Humphreys, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12 Ebrill 2017, Cyng I Rowlands yn cynnig a Cyng G Parry yn eilio
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Dywedodd y Clerc bydd y contractwr yn dechrau'r gwaith 15 Mai
4.2	Maes chwarae - Dywedodd y Clerc bod y gwair wedi cael ei dorri 26 Ebrill a 9 Mai. Cytunwyd i ofyn i Ian Lloyd gosod coed newydd ar yr offer ac edrych ar y llwybr o gwmpas yr offer. Cynigodd Cyng R G Parry cael byrddau picnic a cynigodd Cyng I Rowlands cael "bark" i'r twnnel helyg.
4.3	Lon Salem. Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir: Cyfeiriaf at eich e-byst a hefyd fy ymweliad ar safle yn trafod y groesfan ar Lon Salem, Bryngwran. Rwyf yn ymddiheuro am yr oedi yn ymateb. Y prif bryder a godwyd yn yr ymweliad safle gyda chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned oedd bod angen gwneud y groesfan yn fwy gweledol. Yn y cyfarfod nodwyd nad oedd y llinellau melyn 'cadwch y glir' wedi cael eu cwblhau ond byddaf yn sicrhau bod y contractwr yn dychwelyd i orffen y gwaith yma. Gan mae dim ond safle croesi heb reolaeth sydd ar Lon Salem (dim un zebra neu un gyda goleuadau) nid oes arwydd ar gael i ddynodi croesfan fel yma. Rwyf yn nodi fod yna arwydd 'Ysgol/Cae Chwarae' ar gefndir melyn y bob ochr i'r groesfan felly ystyrir fod hyn yn ddigonol. Yn y cyfarfod trafodwyd yr opsiwn o ddefnyddio marciau ffordd coch i ddynodi'r groesfan fel sydd i'w gweld yn ardal Bangor. Mae gwaith fel yma yn hynod o ddrud i'w gosod ai gynnal a chafodd y gwaith ym Mangor ei wneud yn rhan o gynllun grant. Nid oes gwariant tebyg ar gael i'r safle yma ond byddaf yn edrych ar adnewyddu'r marciau 'ARAF/SLOW' ar un ochr, gan osod un newydd ar y ffordd i mewn i'r pentref. Os ceir cyfle i gynnig am arian grant i wella llwybrau cerdded yna medraf ystyried y safle yma mewn unrhyw gais. Bydd y Clerc yn gofyn iddynt symud yr arwyddion 30myh at groesffordd Cae'r Ddol i arafu traffic.
	Llofnod.....Cadeirydd 14.06.17

4.4	Cynefin (Lon Salem) Mae'r mater dal yn nwylo'r cyfreithwyr. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Adran Cynllunio, Cyngor Sir i ddweud bod y palmant heb cael ei orffen yn ol y cynlluniau.
4.5	Lon y Fynwent - Mae Mr Parry, Newidfa wedi gwneud y gwaith ar y lon. Bydd y Clerc yn anfon llythyr o ddiolch.
4.6	Plaque (carreg yr Eisteddfod) - Dywedodd y Clerc bod y cwmni dal i weithio ar y plaque
4.7	Yr Heddlu (presenoldeb y PCSO) - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Heddlu
4.8	Capel Salem. Mae'r mater yn nwylo'r Cyngor Sir
4.9	Twnnel Helyg - Mae Mrs Dee Walker wedi gwneud gwaith twtio ar yr helyg
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r cyngor newydd. Mae gan y Cyngor 3 sedd gwag. Dywedodd y Clerc bod hysbyseb wedi cael ei baratoi i llenwi y seddau gwag.
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Rheolaeth Adeiladu
6.1	Capel Salem - gweler 4.8
	Cynllunio
6.2	16C193A/VAR Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod 01 o caniatad rhif 16C193 (newid adeilad allanol i annedd) er mwyn alluogi 5 mlynadd arall i dechrau datblygiad yn Treban Farm, Bryngwran - dim sylwadau
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Go Safe - Ebst yn cadarnhau bydd Go Safe yn presennol yn y pentref. Bydd y Clerc yn gofyn os oes ystadegau ar gael
7.2	Dee Walker - gweler 4.9
7.3	Cadw - gwaith papur i dderbyn y grant
7.4	Rhys Williams - gweler 4.2
8	MATERION ERAILL
8.1	Dwr Cymru - Dywedodd y Cadeirydd bod nifer o trigolion Bro Mynydd yn cwyno am cyflwr y dwr - mae'r dwr yn fudur ac yn drewi. Mae Dwr Cymru yn disgwyl am grant i gosod peipiau newydd. Bydd y Clerc yn cysylltu a Dwr Cymru am diweddariad
8.2	Seddau gwag - gweler 5
9	MATERION ARIANNOL
9.1	Cytunwyd i dalu: Omega Business Supplies £216.00 (hysbysffwrdd), Dee Walker £95.00 (twnnel helyg)
10	Materion ar gyfer y rhaglen nesaf
10.1	Stepiau a ramp o mynwent yr Eglwys i'r mynwent cyhoeddus
	Llofnod.....Cadeirydd
	14.06.17

